

**CARDIFF
UNIVERSITY**

**PRIFYSGOL
CAERDYDD**

**Canfyddiadau o ddadansoddiad thematig o Adolygiadau Ymarfer
Plant yng Nghymru**

Dr Alyson Rees

Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol
Prifysgol Caerdydd

Dr Roxanna Dehaghani
Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth
Prifysgol Caerdydd

Dr Thomas Slater

Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol
Prifysgol Caerdydd

Dr Rachel Swann

Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol
Prifysgol Caerdydd

Professor Amanda L Robinson

Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol
Prifysgol Caerdydd

Adroddiad drafft ar gyfer sylwadau NISB

22ain Mawrth 2019

Cefndir

Comisiynwyd y prosiect ymchwil hwn gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i roi hwb i'r agenda deallusol a'r dysgu y gellir ei gyflawni o ddadansoddiad systematig o Adolygiadau Ymarfer Plant (AYP). At hynny, mae'r ymchwil hwn yn rhoi cyfle i fanteisio i'r eithaf ar werth adolygiadau o'r fath; mae'r rhain yn fuddsoddiadau costus ac o bosibl nas defnyddir ddigon fel adnoddau dysgu. Mae'r astudiaeth bresennol yn adeiladu ar astudiaeth gynharach ar adolygiadau marwolaeth oedolion, a ariannwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (gweler Robinson, Rees a Dehaghani, 2018). Nodwyd amrywiaeth o themâu trawsbynciol (asesu rhannol, meddwl cul, croesi ffiniau, camarwain a gwybodaeth freintiedig) a bydd y rhain yn cael eu hystyried ochr yn ochr â chanfyddiadau'r adroddiad hwn.

Daeth AYPau yn ofyniad statudol yng Nghymru yn 2013, gan ddisodli'r Adolygiadau Achosion Difrifol (sydd bellach yn Lloegr yn unig). Cymerodd Gymru gam arloesol wrth symud i fwrdd o Adolygiadau Achos Difrifol. Roedd y broses newydd yn deillio o adroddiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru - {1>Gwella Ymarfer i Amddiffyn Plant yng Nghymru:<1} {2>Archwiliad o Rôl Adolygiadau Achosion Difrifol<2} (Llywodraeth Cymru, 2009).

Elfen allweddol o'r fframwaith AYP oedd cyflwyno dau fath gwahanol o adolygiadau a elwir yn adolygiadau 'cryno' ac 'estynedig', gan ddibynnu ar yr amgylchiadau dan sylw. Cynhelir adolygiadau cryno lle nad oedd y plentyn naill ai ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn mewn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis blaenorol (LIC, 2012:5). Hefyd, gellir cynnal adolygiadau hanesyddol mewn amgylchiadau penodol (gweler Atodiad 3, Llywodraeth Cymru, 2016). Rhaid i bob AYP gael ei gymeradwyo gan Fwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol (BDPRh) ac yna gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Yna mae adroddiadau AYP yn ymddangos ar wefannau BDPRh.¹

Cynhaliwyd adolygiad diweddar o roi AYPau ar waith ar ran Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015). Roedd y canfyddiadau'n canolbwyntio ar roi'r Fframwaith AYP ar waith, gan gynnwys gwneud penderfyniadau, amser ac adnoddau, ymglymiad yr ymarferydd a lledaenu effeithiol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ymchwil blaenorol ar

¹ Gellir dod o hyd i ganllawiau cyfoes ar CPR yn Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl - Cyfrol 2 - Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016) (a gyhoeddwyd o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

y cynnwys a'r themâu sy'n dod i'r amlwg o'r AYPau. Un o'r astudiaethau mwyaf diweddar a mwyaf perthnasol yn uniongyrchol yw dadansoddiad o Adolygiadau Achosion Difrifol (yr hyn sy'n cyfateb i AYPau yn Lloegr), lle nodwyd y themâu canlynol: asesu a throthwyon, clywed llais plant a theuluoedd, cyfathrebu a rhannu gwybodaeth (Sidebotham et al., 2016). Mae cyfosodiadau o adolygiadau eraill i farwolaethau a digwyddiadau difrifol wedi dangos pwysigrwydd: mwy o hyfforddiant i weithwyr proffesiynol gofal iechyd; asesiadau risg gwell ac ymatebion gwell i'r rhai hynny gydag anghenion cymhleth; cyfleoedd a gollwyd ar gyfer diogelu plant a chadw cofnodion gwell (Neville a Sanders-McDonagh, 2014, AGIC, 2016; Sharps-Jeff a Kelly, 2016). Nodau'r astudiaeth bresennol yw nodi themâu allweddol o AYPau, a chymharu'r rhain gyda'r hyn a ddysgwyd o fathau eraill o adolygiadau (DHR, APR a MHHR), er mwyn cynhyrchu gwybodaeth newydd i wella ymarfer rhyngasiantaethol yn y dyfodol. Y gobaith yw y bydd canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn yn helpu i wella ymarfer ymhlith y rhai sy'n gyfrifol am gynnal adolygiadau a llywio trefniadau llywodraethu yn y dyfodol ar gyfer adolygiadau ac arolygiadau a gynhelir yng Nghymru.

Methodoleg

Mae'r dull cyffredinol a ddefnyddir ar gyfer yr astudiaeth hon yn ansoddol, yn cynnwys codio adolygiadau'n thematig sy'n cael ei ategu gan drafodaethau grŵp ffocws gydag ymarferwyr o ledled Cymru.

Sampl

Darparwyd y sampl o adolygiadau i'w codio gan yr NISB. Cafodd cyfanswm o 20 o adolygiadau Ymarfer Plant - a gwblhawyd rhwng 2014 a 2019 - eu codio'n driphlyg gan y tîm ymarfer o safbwynt cyfreithiol, safbwynt academiaidd (troseddeg) a safbwynt yr ymarferydd (gwaith cymdeithasol). Ffurfiwyd tîm y prosiect i gyflawni trosolwg cadarn, aml-ddisgyblaethol o AYPau yng Nghymru. Roedd un o'r AYPau yn adolygiad hanesyddol oedd wedi'i hyrwyddo gan ddatgeliadau a wnaed gan y plentyn dan sylw tra yn y carchar. Cynhaliwyd naw o'r AYPau o ganlyniad i farwolaeth plentyn, gydag achosion y farwolaeth yn amrywio o ffactorau oedd yn gysylltiedig ag esgeulustod meddygol a/neu fathau eraill o esgeulustod (gan gynnwys diffyg goruchwyliaeth), lladd plentyn, a hunanladdiad. Nid oedd hi'n glir yn un o'r AYPau (13) p'un a oedd plentyn wedi marw. Ysgogwyd yr adolygiadau eraill gan amrywiaeth o ddigwyddiadau andwyol gyda phryderon yn amrywio o gam-drin rhywiol/camfanteisio, cam-drin corfforol (yn aml gan riant neu bartner rhiant), ac esgeulustod. Roedd cam-drin emosiynol yn amlwg yn nifer o'r achosion ond nid oedd yn ymddangos fel prif reswm dros gynnal AYP. Nid yw'n syndod bod nifer o'r AYPau wedi nodi bod pobl ifanc wedi bod yn ddarostyngedig i nifer o fathau gwahanol o gam-drin, yn aml dros gyfnodau hir o amser.

Mae tabl trosolwg o'r sampl, yn cynnwys manylion allweddol pob adolygiad, wedi'i

gynnwys yn Atodiad A.

Fframwaith codio

Sefydlwyd dull a fframwaith i nodi themâu allweddol gan y tîm ymchwil. Yn gryno, roedd hyn yn cynnwys darllen a thrafod tri AYP gan bedwar ymchwilydd (cyfreithiol, academaidd a dau ymarferwr), a oedd wedyn yn galluogi datblygu fframwaith codio. Gofynnwyd i ymchwilwyr nodi hyd at bum thema allweddol o dan bob un o'r categorïau canlynol: Preswylfa/amgylchiadau'r plentyn; Cyflawnwr/wyr (os oedd un); Gwybodaeth ddemograffig arall; Nodweddion cam-drin; Perfformiad asiantaeth - Gwasanaethau Plant; Perfformiad asiantaeth - Iechyd (gan gynnwys CAMHs); Perfformiad asiantaeth - Addysg; Perfformiad asiantaeth - yr Heddlu; Perfformiad asiantaeth - Arall (gan gynnwys y trydydd sector); Gweithio mewn partneriaeth aml-asiantaeth; Nodi arfer da; Prif argymhellion wrth symud ymlaen; Sylwadau ar ansawdd yr AYP; Sylwadau eraill (e.e. o safbwynt academaidd, safbwynt yr ymarferydd neu safbwynt cyfreithiol).

Yn unol â manyleb yr ymchwil, cafodd pob adolygiad ei godio'n thematig gan bob aelod o'r tîm codio. Arweiniodd hyn at y gwaith codio'n cael ei gyflawni o safbwynt 'academaidd', 'ymarferydd' a 'chwyfreithiol' (h.y. o leiaf tair set o godio fesul adolygiad). Defnyddiwyd cyfarfodydd tîm wythnosol dros gyfnod o bum wythnos i drafod sypiau o adolygiadau. Ar ôl cwblhau'r codio, cyfunwyd y canlyniadau mewn un gronfa ddata Excel, yn cynnwys y codio gan bob aelod o'r tîm, er mwyn gallu gwerthuso'r rhain o ran eu tebygrwydd a phwyntiau ymwahanu. Yn y pen draw, datgelodd yr ymarfer hwn wahaniaethau bach yn unig, er bod y tîm ymchwil wedi'i greu'n dybiannol i ddod â thri safbwynt gwahanol i'r codio. Caiff hyn ei drafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

O'r ymarfer codio, nodwyd grŵp o bedair thema drawsbynciol ynghyd ag agwedd ychwanegol ar heriau strwythurol allweddol a materion gweithdrefnol, i ddarparu'r strwythur ar gyfer trafodaeth y grŵp ffocws. Roedd y pedair thema hyn yn destun gwiriad dilysu drwy'r drafodaeth a darparwyd adborth gan y grwpiau ffocws ymarferwyr. Darperir tabl trosolwg sy'n darlunio sut mae'r themâu yn berthnasol i bob adolygiad AYP yn Atodiad B.

Grwpiau ffocws

Cynhaliwyd grwpiau ffocws i drafod y themâu a nodwyd a chael adborth ar ddehongliad posibl o'u hystyr. Nodwyd cyfranogwyr ar gyfer grwpiau ffocws gan y NISB. Cynhaliwyd un grŵp ffocws yng Ngogledd Cymru (Wrecsam) ac un yn Ne Cymru (Caerdydd). Ni chafodd y wybodaeth ei hanfon gan NISB tan yn gymharol hwyr ac o ganlyniad dau yn unig wnaeth fynychu'r grŵp ffocws yn Wrecsam; fe wnaeth deg cyfranogwr fynychu'r grŵp yng Nghaerdydd. Fe wnaeth y ddau grŵp ffocws barhau am ddwy awr. Gan fod cyn lleied wedi gallu mynychu grŵp ffocws Wrecsam anfonwyd crynodeb o'r themâu a ddaeth i'r amlwg drwy NISB i'r rhai na allai fynychu i gasglu eu barn am p'un a oedd y rhain yn cyd-fynd â phrofiadau ymarferwyr ac i gasglu sylwadau ar AYPau yn fwy

cyffredinol.

Anfonwyd gwahoddiadau i gymryd rhan mewn arolwg byr ar-lein i gasglu gwybodaeth cefndirol i ymarferwyr oedd wedi cofrestru i fynychu un o'r ddau grŵp ffocws. Derbyniwyd un ar ddeg o ymatebion. Roedd y cyfranogwyr yn dal amrywiaeth o swyddi ymarfer, rheoli a strategol gyda'r Heddlu, y Gwasanaethau Cymdeithasol, y gwasanaeth prawf ac ym maes iechyd. Gofynnwyd i gyfranogwyr nodi lefel eu profiad gyda phob math o adolygiad (dim profiad; wedi darllen y math hwn o adroddiad; wedi cymryd rhan drwy ddarparu tystiolaeth neu wybodaeth; wedi bod â chyfrifoldeb cyffredinol am y broses; wedi bod â chyfrifoldeb strategol dros sicrhau bod argymhellion yn cael eu rhoi ar waith). Roedd gan yr holl gyfranogwyr rhyw lefel o wybodaeth a/neu brofiad gydag AYPau.

Roedd nifer o'r sylwadau yn yr arolwg yn ymwneud â'r angen i adolygu'r gwahaniaeth mae argymhellion wedi'i wneud ac effaith cynlluniau gweithredu:

- 'Mae angen i gamau gweithredu fod yn fesuradwy ac nid yn rhestr o ddymuniadau'
- 'Monitro deilliannau dysgu, gan sicrhau bod argymhellion yn cael eu derbyn ar lefel strategol ac yn cael eu rhaedru i lawr i'r staff gweithredol'
- 'Lle mae themâu yn dod i'r amlwg yna mae angen cymryd camau gweithredu neu gynnal hyfforddiant i fynd i'r afael â'r mater'

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylw ar yr angen i ledaenu AYPau yn ehangach:

- 'Gallai Byrddau Diogelu Rhanbarthol wneud mwy i hyrwyddo dysgu o'r holl adolygiadau ac ymchwil, archwilio effeithiolrwydd rhoi argymhellion ar waith a datblygu diwylliant o welliant parhaus mewn ymarfer diogelu ac amddiffyn plant ar draws yr holl asiantaethau'
- 'Cwblhau a chyhoeddi adolygiadau yn ddi-oed. Lledaenu adolygiadau a chanfyddiadau'n ehangach. Cyfranogiad ehangach yn y digwyddiadau dysgu gan staff amlasiantaethol. Cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant aml-asiantaeth, cysgodi rolau ac ati.'

Nododd eraill oblygiadau adnoddau ac amser y broses AYP:

- 'Rwyf yn ymwybodol o [broblemau] yn ein rhanbarth: problemau ynghylch dod o hyd i gadeiryddion ac adolygwyr oherwydd capasiti mewn asiantaethau ac amserlenni'n cael eu hymestyn oherwydd ymchwiliadau parhaus yr heddlu'
- 'Goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer asiantaethau sy'n darparu adolygwyr, cadeiryddion ac aelodau panel'

- 'Adolygwyr Ymarfer: ydyn nhw'n gymwys, [ydyn nhw'n] meddu ar y profiad iawn?'

Roedd rhywfaint o gysondeb ar draws ymatebwyr yr arolwg a nodwyd nifer o themâu llwyth gwaith a lledaenu gwybodaeth yn y dadansoddiad o AYPau. Er na chafodd y grwpiau ffocws eu recordio, cymerwyd nodiadau ar y pryd ac yna eu cyfuno ar unwaith yn gofnod ysgrifenedig o'r themâu allweddol. Yna ategwyd yr wybodaeth hon gan gyfle i'r holl gyfranogwyr ddarparu adborth drwy gyfrwng arolwg byr wedyn.

Cyfngiadau

Mae sylw byr ar gyfngiadau'r astudiaeth yn angenrheidiol, cyn symud ymlaen at y prif ganfyddiadau. Yn gyntaf, roedd y sampl yn sampl cyfleustra a ddarparwyd gan yr NISB. Nid yw o reidrwydd yn darparu sampl gynrychioliadol o AYPau sydd wedi'u cynnal yng Nghymru. Fodd bynnag, fe'u dewiswyd gyda'r bwriad o sicrhau achosion o ehangder daearyddol mawr yng Nghymru, ac i ddangos yr ystod eang o faterion sy'n tueddu i gael eu gweld mewn adolygiadau o'r fath. Er bod yr NSPCC yn amcangyfrif bod 29 AYP wedi'u cwblhau hyd heddiw, sy'n golygu bod y sampl a ddadansoddir yma yn cynrychioli tua dwy ran o dair o'r cyfanswm, mae angen ymchwil pellach gyda sampl mwy i brofi ein canfyddiadau.

Canfyddiadau

Trafodir y pedair thema drawsbynciol a nodwyd o'r ymarfer codio a'u cadarnhau gan drafodaeth y grŵp ffocws yn yr adrannau sy'n dilyn.

Thema 1 - Hierarchaeth Gwybodaeth

O ddarllen yr AYPau roedd hi'n amlwg bod rhywfaint o wybodaeth freintiedig (AYPau 1, 3, 4 5, 6, 7, 9, 10, 11, 12, 14, 15, 16, 17 ac 18), ac mae hyn yn cyd-fynd â thema a nodwyd yn ein gwaith ymchwil blaenorol (Robinson et al., 2018) lle gwelwyd gwybodaeth broffesiynol yn cael blaenoriaeth dros wybodaeth bersonol. Roedd gan rai safbwyntiau proffesiynol fraint uwch nag eraill yn yr astudiaeth hon hefyd, er ei bod yn anodd pennu hyn weithiau, gan fod adroddiadau'n aml yn cyfeirio at 'ymarferwyr' neu 'weithwyr proffesiynol' mewn modd generig. Roedd y thema hon yn canu cloch gyda chyfranogwyr y grwpiau ffocws a dynnodd sylw at anawsterau wrth reoli gwahaniaethau pan, er enghraifft, fo gweithiwr meddygol proffesiynol yn dweud nad oes digon o dystiolaeth o gam-drin plant, ond bod y gweithiwr proffesiynol anfeddygol yn credu fel arall. Gwelwyd bod penderfyniadau gweithwyr proffesiynol (e.e. diagnosis meddygol neu arestio/cyhuddo) yn seiliedig ar wybodaeth 'gwrthrychol', a ystyriwyd eu bod yn rhagori ar farn 'oddrychol' gweithwyr para-broffesiynol, teulu, ac aelodau o'r gymuned. Roedd barn gweithwyr proffesiynol yn cael mwy o wrandawriad a braint uwch

na barn rhieni; er enghraifft, roedd rhieni'n poeni am eu mab a aeth ymlaen i'w ladd ei hun (AYP 10). Ystyriwyd fod barn aelodau o'r gymuned yn llai dibynadwy ac felly'n llai dylanwadol (e.e. pan wnaethant fynegi eu pryderon am blentyn i asiantaethau, gweler APYau 16, 18). Roedd cytundeb eang yn un o'r grwpiau ffocws nad yw atgyfeiriadau cymunedol bob amser yn cael eu credu'n briodol.

Arweiniodd yr hierarchaeth gwybodaeth hon at 'feddwl yn gul', lle mae agweddau penodol yn cael eu ffurfio ac yna'n dod yn anodd eu herio (AYP{1>au <1}1, 4, 11) (Munro, 2011). Yn ychwanegol at hyn, nododd y grwpiau ffocws y gallai'r potensial i feddwl yn gul godi mewn cyd-destunau grŵp. Er enghraifft, gall ymarferwyr sy'n llunio naratifau cyfunol am sefyllfa teulu {2>greu'r<2} potensial i {3>anwybyddu<3} {4>tystiolaeth newydd sy'n herio'r naratif gwreiddiol.<4} Nodwyd meddwl yn gul yn fater ymarferol, ond yn anodd ei oresgyn, gan atgyfnerthu gwaith cynharach (Robinson et al., 2018).

Yn ogystal â hierarchaeth gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol ar y brig, roedd hierarchaeth o fewn teuluoedd. Roedd ymdeimlad bod oedolion yn cael gwrandawriad (AYPau 11, 12 a 15) ac yn cael eu credu yn fwy na phlant (gweler hefyd themâu 3 a 4 isod). At hynny, roedd barn mamau yn tueddu i gael mwy o ffrain na barn plant a thadau (AYPau 5, 14 a 15). Nododd y grwpiau ffocws fod tadau yn aml yn absennol o drafodaethau ac ymyrraeth ymarferol. O ganlyniad i absenoldeb 'tybiedig' tadau, gosodwyd cyfrifoldeb gofal yn aml ar famau neu neiniau a theidiau (AYP 3) yn ymarferol. Fodd bynnag, gwnaed ymdrechion i gynnwys tadau mewn AYPau (AYPau 15).

Yn olaf, mae'n anochel y bydd gweithio'n aml-asiantaethol ac aml-ddisgyblaethol ar adegau yn arwain at safbwyntiau gwahanol ynghylch y risgiau i les y plentyn. Pan geir anghydfodau proffesiynol, mae'n hanfodol bod ymarferwyr a rheolwyr ar draws asiantaethau yn defnyddio protocolau datrys anghydfodau proffesiynol. Nid oedd hyn i'w weld yn yr achosion a adolygwyd (AYPau 5, 10 a 17). Ni ddylid ystyried y prosesau hyn yn gosbol nac yn wrthwynebol, yn hytrach na hynny maen nhw'n cynrychioli lle i weithwyr proffesiynol drafod pryderon mewn fforwm agored. Mae angen bod yn fwy parod i ddefnyddio'r rhain er mwyn archwilio pryderon yn effeithiol a nodi pa gamau sydd eu hangen gan asiantaethau gwahanol wrth symud ymlaen.

Thema 2 - Rhannu / cofnodi gwybodaeth

Nodwyd rhannu gwybodaeth yn rheolaidd fel maes i'w wella yn yr AYPau. Yn benodol, nodwyd fod gweithwyr proffesiynol yn ansicr am pryd y gallent, neu y dylent, rannu gwybodaeth heb ganiatâd mewn achosion lle nad oedd cymorth yn cael ei roi i deulu o dan adain pryder diogelu (AYPau 1, 2, 3, 4, 6, 7, 9, 11, 14, 15, 16, 17, 19 a 20). Fel y nodwyd gan yr Arglwydd Laming (2003) yn ymchwiliad Victoria Climbié, caniateir

rhannu gwybodaeth mewn amgylchiadau o'r fath ar yr amod bod cyfiawnhad clir yn bodoli a'i fod yn cael ei gofnodi'n ofalus. Nodwyd pryderon am gwynion yn cael eu gwneud dros achosion amhriodol o rannu gwybodaeth, a/neu gred bod asiantaethau eraill eisoes yn ymwybodol o'r wybodaeth, ill dau fel rhesymau dros beidio â rhannu manylion. Roedd y grwpiau ffocws yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â rhannu gwybodaeth a nodwyd ei fod yn fater parhaus a chymhleth. Nodwyd pryderon am rannu gwybodaeth yn yr asiantaeth ac ar draws asiantaethau mewn adolygiadau gwahanol, fodd bynnag, roedd rhai mathau o broblemau yn fwy cyson ac yn fwy o broblem nag eraill, er enghraifft, yn AYP 6 ni rannwyd gwybodaeth yn dda rhwng yr ysbyty a staff cymunedol, ac fe wnaeth hyn roi'r person ifanc mewn perygl uwch er gwaethaf y ffaith bod meddygon teulu ac ymwelwyr iechyd yn hynod o ragweithiol wrth gymryd camau yn dilyn apwyntiadau a gollwyd. Yn AYP 11, llwyddodd person ifanc i ymgysylltu gyda CAMHS yn eu hardal newydd oherwydd mewnbyn gan eu meddyg teulu yn unig, oherwydd ei bod yn ymddangos nad oedd atgyfeiriad CAMHS i CAMHS wedi digwydd. Yn AYP 7, codwyd pryderon ynglŷn â rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau oedd yn cefnogi'r fam ac asiantaethau eraill.

Nodwyd pryderon ynghylch rhannu gwybodaeth o fewn ac ar draws sefydliadau hefyd rhwng adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol oedolion a phlant (AYP 19). Lle y codwyd pryderon am les rhiant, nid oedd gwiriadau'n cael eu gwneud bob amser gyda'r gwasanaethau oedolion am unrhyw blant a allai fod ganddynt (AYP 9) (gweler hefyd Thema 3).

Mewn un teulu (AYP 2) o 6 o blant, roedd y fam yn feichiog gyda'i seithfed plentyn. Roedd dau o blant wedi'u mabwysiadu, ac roedd dau wedi cael eu maethu. Roedd rhai o'r plant wedi cael eu maethu y tu allan i'r sir ac nid oedd unrhyw ymdeimlad bod pob plentyn yn rhan o'r un teulu; nid oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu ar draws awdurdodau lleol. Wrth weithio gyda theuluoedd mawr mae'n hanfodol bod gweithio aml-asiantaeth yn digwydd i ddiwallu anghenion plant yn unigol ac ar y cyd. Gall gwahanol systemau TG gymhlethu'r broses rhannu gwybodaeth; roedd hyn yn arbennig o ddifrifol ar gyfer teuluoedd mawr a oedd o ganlyniad weithiau angen mynychu nifer o apwyntiadau ar gyfer plant gwahanol mewn mannau gwahanol ar yr un pryd (AYP 1).

Roedd diffyg mynediad i wybodaeth yn rhywbeth a allai gael ei lesteirio gan fethiant y Gwasanaethau Plant i drosglwyddo gwybodaeth i asiantaethau eraill mewn modd amserol. Er enghraifft, yn AYPau 15 ac 16 nodwyd fod y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi methu â throsglwyddo gwybodaeth a dderbyniwyd gan yr heddlu² i asiantaethau eraill. Yn yr un modd, nid oedd y Gwasanaethau Plant bob amser yn rhoi gwybod i asiantaethau eraill eu bod yn tynnu eu cefnogaeth i'r plentyn (plant)/teulu yn ôl; mae hyn yn peri'r risg y gallai arwain i'r asiantaethau hynny sy'n dal i weithio gyda

² Dylid nodi bod yr heddlu wedi cael eu nodi'n gyson i fod yn rhagweithiol wrth ddarparu gwybodaeth i wasanaethau plant, er bod tuedd i ddibynnu ar wasanaethau plant i ledaenu gwybodaeth i asiantaethau eraill.

phlentyn/plant/teulu gael teimlad ffug o ddiogelwch a/neu arwain at fethiant cyfathrebu pellach wrth symud ymlaen. Efallai yn fwyaf pryderus, nododd AYP 2 a 4 achosion o broses wael o rannu gwybodaeth rhwng adrannau Gwasanaethau Plant mewn awdurdodau lleol gwahanol. Yn y cyntaf, roedd teulu wedi bod yn cael cymorth gan ddwy asiantaeth ar wahanol adegau, gan lesteirio mynediad at wybodaeth hanesyddol sydd yn aml yn hanfodol ar gyfer asesu risg effeithiol. O ran yr ail o'r rhain, fe wnaeth lleoliadau y tu allan i'r sir olygu bod gwybodaeth hanfodol ar gyfer diogelu lles y plentyn ar goll. Gwelwyd y problemau o 'groesi ffiniau' hefyd yn ein hastudiaeth flaenorol (Robinson et al., 2018).

Yn ogystal â phryderon am rannu gwybodaeth, nododd ein dadansoddiad broblemau hefyd gyda dulliau o gofnodi gwybodaeth, gan gynnwys: (i) cadw cofnodion; (ii) cysondeb o ran iaith; a (iii) chronolegau. Nodwyd cynhyrchu cofnodion cywir a chlr yn rheolaidd fel sgil bwysig ar draws proffesiynau. Pan fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu, neu pan fydd atgyfeiriad yn cael ei wneud, mae'n rhaid i'r sawl sy'n atgyfeirio a'r sawl sy'n derbyn yr atgyfeiriad gofnodi hyn (AYP 3). Yn AYP 3 nodwyd nad oedd atgyfeiriadau a wnaed dros y ffôn wedi cael eu holrhain yn ysgrifenedig o fewn dau ddiwrnod gwaith, yn ôl y disgwyl. Yn AYP 5 nid oedd gwybodaeth a drosglwyddwyd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol bob amser yn cael ei hystyried neu ei chofnodi fel atgyfeiriad. Mae angen i ymarferwyr ar draws asiantaethau fod yn glir ynghylch beth yw atgyfeiriad, sut y cânt eu cofnodi a beth fydd yn digwydd o ganlyniad i hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle gwnaed atgyfeiriad gan un asiantaeth, ond lle nad yw'r asiantaeth sy'n derbyn yn teimlo bod angen unrhyw gamau pellach. Mae angen cofnodi a chyfathrebu'r penderfyniadau hyn, er mwyn atal asiantaethau rhag gorfod mynd ar drywydd i ganfod pa gamau (os o gwbl) a gymerwyd.

Mewn nifer o AYPau (2, 4, 7 ac 17) nodwyd y gall defnydd anghyson o iaith ar draws asiantaethau arwain at ganlyniadau andwyol i blant. Yn benodol, gall terminoleg lac o ran cyflwr y cartref mewn achosion o esgeulustod amharu ar ddealltwriaeth o risg ac effaith ar brosesau llys (h.y. tystiolaeth wael neu anghyson). Yn yr un modd, gall terminoleg wahanol ar draws asiantaethau arwain at ddryswch a rhagdybiaethau amhriodol am risg. Yn AYP 7, nodwyd fod diffyg cysondeb o ran camddefnyddio sylweddau yn achosi problemau mewn gwaith aml-asiantaeth. Gall dryswch godi nid yn unig o ddewis gair ond hefyd o'r defnydd o acronymau. Mae gweithio ar draws systemau lluosog yn creu cyfleoedd ar gyfer camddealltwriaeth. Er enghraifft, nododd AYP 4 fod asesiadau risg lluosog ynghylch camfanteisio'n rhywiol yn bodoli ar draws asiantaethau. Nid oedd enw asesiadau a'u diben yn glir ar draws asiantaethau ac roedd hyn yn amharu ar waith amlasiantaethol effeithiol.

Thema 3 - Asesiad rhannol

Roedd y thema o asesu rhannol yn gyffredin (AYPau 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20) ac yn atgyfnerthu canfyddiadau ein hastudiaeth flaenorol. Mewn AYPau gwelwyd problemau tebyg fel ymarferwyr weithiau'n gwerthuso pobl fel unigolion heb roi sylw dyledus i'w cyd-destun domestig/teuluol (AYPau 1, 3, 4, 9 ac 20) sydd yn broblem arbennig ar gyfer plant. Er enghraifft, gallai unigolion gyda phroblemau cyffuriau ac alcohol (AYPau 1, 6, 7, 11 ac 19) iechyd meddwl gwael (AYPau 2,5, 12, 14 a 18) neu anawsterau iechyd amhenodol (AYPau 8, 9 ac 16) hefyd fod yn rhieni, ond ni ystyriwyd hyn fel mater o drefn, ac nid oedd yr effaith ar unrhyw blant yn cael ei gwerthuso nac yn cael sylw (AYPau 1, 2 a 9). Roedd defnyddio dull unigolyddol yn golygu nad oedd barn yr holl weithwyr proffesiynol a gwasanaethau dan sylw yn cael eu cyfuno (e.e. lle codwyd pryderon am les oedolyn, nid oedd gwiriad bob amser i weld p'un a oeddent yn rhieni, ac o ganlyniad gellid fod wedi methu cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth) (AYPau 7 ac 11). Mae ymarferwyr angen gofyn mwy am bartneriaid newydd, yn enwedig lle mae hanes o gam-drin domestig (AYP 2).

Roedd hefyd yn anodd i ddarlennwyr yr AYPau gael darlun o'r sefyllfa gyfan. Mewn rhai achosion, ni allai'r tîm ymchwil ddweud a oedd y gwasanaethau i oedolion ynghlwm â'r achos (AYP 16). Nid yw'n glir bob amser gyda phwy roedd y plentyn/plant yn byw ar adeg y digwyddiad a arweiniodd at yr adolygiad, neu p'un a oedd ganddynt unrhyw frodyr neu chworydd (AYPau 12, 16, 18, 20).

Fel sydd hefyd wedi'i nodi o dan thema 4 isod, mae angen canolbwyntio ar y plentyn ac ystyried yr holl blant a barn pob plentyn, fel bod yr holl deulu'n cael ei gynrychioli a bod yr holl asiantaethau dan sylw yn bresennol (AYP 11, 15, 17 a 18). Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru (2016) hefyd yn nodi lle ceir mwy nag un plentyn yn destun achos (sydd wedi dioddef niwed difrifol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod), 'mae'n rhaid i'r broses adolygu ystyried safbwynt a phrofiad pob plentyn yn unigol' (gweler 6.12, Llywodraeth Cymru 2016). Mae angen i ymarferwyr hefyd ystyried sut gallai anghenion ychwanegol/arbennig effeithio ar alluoedd rianta (AYP 6).

Nid oedd effaith feichus gofalu am nifer o blant yn cael ei chydnabod bob amser. Roedd sawl AYP yn cynnwys teuluoedd mawr: AYPau 1 (4 plentyn), 2 (6 plentyn), 3 (7 plentyn), 6 (5 plentyn), 17 (5 plentyn) a 20 (anhysbys, nodwyd 'grŵp mawr o frodyr a chworydd'). Yn ogystal â hynny, nid oedd yn amlwg bod ymarferwyr yn gweld plant ag anghenion arbennig fel straen arbennig o arwyddocaol o fewn teulu mawr (AYP 6). Gall hyn ychwanegu mwy o straen i deulu mawr, nag ar gyfer grŵp gydag un neu ddau o blant. Gallai anghenion iechyd cymhleth a lluosog plant mewn teuluoedd mawr fod yn llawer anoddach i'r teulu ymateb iddynt. Mewn un achos ymddengys fod gan y gweithwyr ddisgwyliadau afrealistig o'r nain a'r taid, y nain yn bennaf, oedd yn gofalu am 2 o blant, yn gofalu am ei merch, tra ei bod hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'r 4 plentyn arall (AYP 3).

Nododd grŵp ffocws y bydd hi'n debygol gyda theuluoedd mawr i weld tuedd gwasanaethau i gadw plant gartref am gyn hired â phosibl (h.y. osgoi mynediad i ofal). Awgrymodd y grŵp ffocws fod hyn o ganlyniad i: (i) gostau ariannol; (ii) ystyriaethau ymarferol (h.y. argaeledd lleoliadau gofal maeth); a, (iii) gwahanu plant/buddiannau gorau'r person ifanc. Mae yna risg o ystyried bod trothwyon uwch yn dderbyniol ar gyfer teuluoedd mawr.

Ymddengys fod mamau yn benodol (yn ogystal â theuluoedd), yn cael eu pegynu naill ai yn dda neu'n ddrwg, yn hytrach na chael dealltwriaeth werthfawrogol o fodau dynol y mae'n arferol iddynt feddu ar amrywiaeth o gamau gweithredu ac ymddygiadau allai fod yn dda {1>ac<1} yn ddrwg. Mae hyn yn amlwg mewn amrywiaeth o nodweddion rhieni sy'n gyffredinol negyddol, h.y. 'heriol', 'ddim yn cydweithredu' a/neu esgus cydymffurfio. Gall safbwyntiau o'r fath achosi i ymarferwyr fetu â mabwysiadu dull sy'n ddigon seiliedig ar gryfderau sy'n cydnabod galluoedd (ac nid diffygion yn unig) y rhieni. Ar y llaw arall, gall gweithwyr proffesiynol rannu barn rhy optimistaidd ynghylch unigolion a'u galluoedd ac felly methu â darparu cymorth priodol a chymesur. Mae safbwyntiau pegynedig o'r fath yn methu â chydabod y gallai rhieni feddu ar alluoedd amrywiol oherwydd eu profiadau bywyd (AYPau 3, 4, 5, 6, 7, 9, 10, 17, 18, 19).

Ymddengys fod yr achosion hyn o labelu mamau a theuluoedd naill ai yn dda neu'n ddrwg, eu credu neu eu diystyru, (Goffman, 1961) yn hytrach na synnwyr o ffaledigrwydd/continwrm gallu, yn gysylltiedig â chanfyddiadau gweithwyr proffesiynol o gael eu twyllo (AYPau 1, 2, 5) neu fod yn rhy optimistaidd (AYPau 3, 6, 17). Roedd y gynrychiolaeth ddeuol hon o rieni yn ymestyn i ddealltwriaethau o deuluoedd sydd yn 'dda' neu'n 'broblemus'. Roedd hyn yn taflu cysgod ac yn cyfyngu ar ddealltwriaeth effeithiol o sefyllfaoedd a/neu ddulliau rheoli ymyriadau.

Ymddengys fod maes arall o gymhlethdod ar gyfer gwasanaethau iechyd yn arbennig yn canolbwyntio ar ymddieithriad gwasanaeth. Lle nad oedd plentyn yn dod i apwyntiadau, neu lle nad oedd ymgysylltiad gyda gwasanaeth, yna dylid gofyn cwestiynau ynglŷn â lles ehangach y plentyn wrth gau'r achos (AYPau 6 ac 18). Yn AYP 18 cafodd teulu eu 'dad-gofrestru' o'u meddygfa er gwaethaf y ffaith bod y fam yn dioddef o PTSD a bod hanes hir o bryderon am les y plant. Mae cau achosion yn yr amgylchiadau hyn yn cynyddu bregusrwydd. Mae angen protocolau clir ar gyfer gwiriadau mewn asiantaethau ac ar draws asiantaethau pan fydd gwasanaethau'n cael eu tynnu'n ôl. Mae bod â gwybodaeth gyfredol am y gwasanaethau sy'n parhau i ymwneud â'r teulu yn bwysig er mwyn asesu a diogelu'r plentyn yn effeithiol.

Er gwaethaf y pwysau a roddir ar weithwyr, nodwyd rhai enghreifftiau o arfer da hefyd. Yn AYPau 4 a 5 cafodd cymhlethdod dwys y gwaith ei gydnabod gan reolwr a darparwyd ar gyfer hyn drwy leihau'r llwyth achosion.³ Yn y ddau achos hyn, nodwyd bod gweithiwr cyson o fantais i blant/teuluoedd a'r gweithwyr. Drwy osgoi achosion o

³ Ar gyfer CPR 4 sicrhodd yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol fod gan weithwyr lai o lwythi achosion. Yn CPR 5, dim ond ar gyfer y gweithiwr cymdeithasol y nodwyd llwyth achosion is.

gynrychiolaeth ysbeidiol (newid gweithwyr) (gweler McConville et al, 1994), roedd yn bosibl i ymarferwyr feithrin dealltwriaeth fwy manwl o'r sefyllfaoedd a brofwyd gan y rhai roedden nhw'n gweithio gyda nhw ac arweiniodd hyn at asesiadau gwell.

Thema 4 - Llais y Plentyn

Weithiau roedd lleisiau plant neu safbwynt y plentyn ar goll a/neu nid oeddent bob amser yn ganolog i ymarfer (AYPau 1, 2, 9, 10, 11 a 18). Yn aml nid oedd yr AYPau wir yn ystyried y profiad o safbwynt plant/pobl ifanc. Yn hyn o beth, roedd yr adolygiadau yn ymddangos yn ailadroddol o ran ymarfer.

Yn aml nid oedd yn glir p'un a siaradwyd gyda'r plant yn ystod proses yr AYP, neu pa mor uniongyrchol roedd ymarferwyr wedi gweithio gyda phlant mewn ymarfer (AYP 1, 2, 9, 10, 11, 18 ac 19). Roedd achosion lle siaradwyd â phlant, ond roedd hyn o flaen eu rhieni, ac ni fyddai wedi bod yn fan diogel iddynt ddatgelu eu profiadau (AYPau 2 ac 11). Nid oedd plant yn cael eu cynnwys bob amser, er enghraifft, ni wrandawyd ar blant oedd wedi cael eu maethu neu eu mabwysiadu mewn mannau eraill ynghylch eu profiadau (gweler hefyd Thema 3) (AYP 2). Roedd diffyg disgrifiad mewn unrhyw arsylwadau ymarfer o blant i roi synnwyr o brofiad y plentyn (AYP 2). Yn AYP 9, oedd yn ymwneud ag addysgu plant gartref, roedd y plant yn gwbl anweledig i'r holl weithwyr proffesiynol. Am amrywiaeth o resymau, nid oedd bob amser yn bosibl ymgynghori gyda phobl ifanc a/neu eu teuluoedd i ymgynghori fel rhan o'r broses AYP. Serch hynny, byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael o leiaf rhywfaint o fyfyrion ar brofiad byw'r plentyn o ddydd i ddydd ym mhob AYP. Mae'r canllawiau ar gyfer AYPau yn nodi '[Dylai'r] adolygiad ymgysylltu yn uniongyrchol gyda phlant ac aelodau'r teulu fel maen nhw'n dymuno ac fel sy'n briodol' (LIC, Canllawiau 2012; SSWBA 6.3,3 6.34, LIC, 2016). Ni wnaeth AYPau 18 a 19 grybwyll yr angen i roi llais i'r plentyn yn benodol, ac rydym yn cymeradwyo hyn fel arfer da.

Mae teuluoedd mawr o'u hanfod yn golygu mwy o waith i ymarferwyr (roedd AYPau 1, 2, 3, 6, 17 a 20 yn cynnwys pedwar neu fwy o blant). Er enghraifft, byddai teulu o saith yn golygu saith adroddiad a chynlluniau gofal ar wahân. Mae angen amser a lle i ymarferwyr reoli teuluoedd mawr. Yn yr un modd, mae angen i ymarferwyr ochel rhag colli golwg ar anghenion plant unigol yn yr achosion hyn. Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o ran sut a phryd y gellir copïo gwybodaeth rhwng plant a'r effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar lais y plentyn/plant unigol. Nid yw systemau data yn cefnogi gweithio gyda theuluoedd mawr. Yn benodol, gellir copïo gwybodaeth ar draws achosion, ac efallai y bydd anghenion y plant unigol yn cael eu colli yn y broses.

Amlygodd cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws y gallai'r canllawiau cyfoes ar AYPau (2012; 2016) bwysleisio pwysigrwydd gwranddo ar lais y plentyn yn fwy rhwydd. Er hyn, dylid nodi bod gofyn i RSGBau feddwl yn 'greadigol' am sut y gellir ymgysylltu teuluoedd mewn adolygiadau o dan 6.34 yn y canllawiau cyfredol. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd fod angen cymedroli unrhyw awgrym y dylai adolygydd ddiwallu anghenion plant gydag ystyriaeth am briodolrwydd y sefyllfa' (h.y. ystyried ail-fyw

trawma ac ati). Preston-Shoot, M. 2018. Fel mae Preston-Shoot (2018: 12) yn ei amlygu, 'yn amlwg, mae'n rhaid cael cydbwysedd rhwng diogelu anhysbysrwydd teuluoedd a sicrhau bod gweithwyr proffesiynol a'u sefydliadau yn cael eu dal yn atebol ac y gellir lledaenu'r hyn a ddysgwyd a'i ddefnyddio i lywio ymarfer yn y dyfodol'.

Ystyriwyd 'Profiad byw plant' (PBP) fel term gwell gan y rhai hynny yn un o'r grwpiau ffocws, i gydnabod y ffyrdd ehangach o weld a gweithio gyda phlant, yn hytrach na 'llais y plentyn', gan fod hyn yn dibynnu ar allu'r plentyn i siarad a chael ei glywed.

Mae PBP yn symud oddi wrth mynegiant lleisiol plant ac yn ail-osod y ffocws ar ymarfer proffesiynol cadarn.

Heriau i'r fframwaith AYP

Her 1- Llwyth gwaith a goruchwyliaeth

Drwy yr AYPau soniwyd dro ar ôl tro am amodau gwaith ymarferwyr ar draws asiantaethau (AYPau 1, 5, 6, 7, 15 ac 17). Nodwyd y cynnydd yn llwyth gwaith y Gwasanaethau Cymdeithasol gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) (BBC, 2018) fel ffynhonnell o bryder a straen ar gyfer ymarferwyr. Mae materion sy'n ymwneud â chadw gweithwyr cymdeithasol yn y Gwasanaethau Plant wedi'u hen sefydlu, a chadarnhaodd yr AYPau fod hyn yn parhau i fod yn fater difrifol ar gyfer ymarfer cyfoes yng Nghymru. Yn ogystal â hynny, cydnabuwyd fod adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol - sy'n aml yn cymryd y rôl arweiniol ym maes diogelu plant - o dan bwysau arbennig. Gyda llai o adnoddau, yn aml mae gweithwyr cymdeithasol yn gweithio gyda'r angen mwyaf aciwt yn unig, ac adlewyrchir hyn yn aml ar ffurf achosion cymhleth. Yn ychwanegol at hyn, yn aml cyfrifoldeb y Gwasanaethau Cymdeithasol yw hwyluso a chofnodi cyfarfodydd aml-asiantaeth a gwaith aml-asiantaeth. Fel y dywedodd un cyfranogwr mewn grŵp ffocws, '[gweithwyr cymdeithasol] sydd â'r cyfrifoldeb i ysgwyddo'r baich'. Cydnabyddir mewn AYPau fod materion llwyth gwaith yn cael effaith sylweddol ar ymarfer.

Nodwyd cyfleoedd am hyfforddiant a goruchwyliaeth yn aml fel meysydd i'w datblygu (AYPau 4, 5, 6, 7, 10, 12, 16 a 18). Mae goruchwyliaeth yn digwydd mewn nifer o ffyrdd a gall gynnwys nifer o swyddogaethau (Carpenter, *et al.*, 2013). Er bod angen mwy o eglurder ynghylch ffurf a swyddogaeth mewn AYPau, mae'n amlwg nad yw goruchwyliaeth yn cael blaenoriaeth mewn ymarfer cyfoes.

Her 2 - Anawsterau TG

Gwelwyd fod y rhain yn llesteirio rhannu gwybodaeth yn amserol ac effeithiol. Nodwyd fod gan y gwasanaethau iechyd yn arbennig systemau darniog iawn (e.e. mae systemau cyfrifiadurol Meddygon Teulu (GP)¹ [1] Nodwyd bod meddygon teulu hefyd yn absennol

o rai o'r digwyddiadau dysgu. Nodwyd hyn yn aml oherwydd llwythi gwaith uchel a / neu ddiffyg dealltwriaeth o ddiben a rôl CPR. Gweler CPR 1 a 17. y tu allan i'r systemau ehangach a ddefnyddir gan y gwasanaethau iechyd (AYPau 1, 8, 14 a 17) gan olygu bod rhannu gwybodaeth yn golygu camau ychwanegol. Roedd amrywiaeth o becynnau meddalwedd gwahanol ynghyd â gwahanol gronfeydd data mewn llawer o achosion yn golygu nad oedd yr holl wybodaeth a drafodwyd yn y digwyddiadau dysgu yn hysbys i'r holl asiantaethau.

Teimlwyd bod cyflwyno cronfa ddata WCCIS yn gadarnhaol, ond mae mynediad at y system hon yn amrywio fesul rhanbarth ac asiantaeth. Ymddengys fod ffiniau iechyd ac awdurdodau lleol yn aml yn peri rhwystrau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, hyd yn oed mewn achosion lle y defnyddiwyd yr un pecynnau meddalwedd (h.y. gallai dau awdurdod lleol fod yn defnyddio'r un feddalwedd ond nid ydy eu cronfeydd data yn hygyrch ar draws sefydliadau - mae'n ymddangos bod y gallu i rannu neu anfon gwybodaeth ar draws cronfeydd data wedi bod yn broblem). Fodd bynnag, dylem fod yn ymwybodol bod cronfeydd data cystal â'r wybodaeth sydd ynddynt yn unig ac mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gynhyrchu cofnodion clir a chywir.

Her 3 - Amddiffyn a diogelu data

Teimlwyd bod gweithredu'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) (a Deddf Amddiffyn Data cysylltiedig 2018), wedi ychwanegu haen arall o gymhlethdod i waith aml-asiantaeth effeithiol ar ddiogelu. Teimlwyd bod angen hyfforddiant ar draws asiantaethau i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon sy'n cael eu harddangos gan ymarferwyr o ledled Cymru ar y mater hwn.

Her 4 Adolygiadau cryno ac estynedig

Ni allai'r tîm ymchwil ddirnad y gwahaniaeth rhwng adolygiadau cryno ac estynedig yn hawdd, yn enwedig gan eu bod yn aml yr un hyd. Fe wnaeth y grwpiau ffocws hefyd nodi bod rhai meysydd yn gofyn am ddau adolygydd fel mater o drefn ar gyfer yr holl fathau o AYPau waeth pa fath, gan bylu'r ffin rhwng y ddau ymhellach. Roedd adolygiadau cryno yn aml yn gwasanaethu fel cyfle i ddysgu ar gyfer adolygwyr newydd er mwyn meithrin profiad o dan warchodaeth adolygydd mwy profiadol, yn hytrach na phennu'r math gan natur yr achos.

Her 5 - Gweithio ystwyth

Gan fod cynnydd mewn gweithio ystwyth, teimlir bod cadw cofnodion cywir yn arbennig o bwysig. Mae ymarferwyr yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau amrywiol fwyfwy ac yn dibynnu ar wybodaeth a gedwir ar gronfeydd data i lywio eu meddwl.

Ni ystyriwyd gweithio ystwyth yn gyffredinol ddrwg mewn grwpiau ffocws, fodd bynnag, roedd pryder gyda llai o gyfleoedd am gymorth a dysgu sy'n dod gyda pheidio bod yn gorfforol bresennol a gweithio gyda ac o amgylch gweithwyr proffesiynol i rannu gwybodaeth a dysgu gan ei gilydd. Roedd hyng, yn arbennig o bwysig, ond nid yn unigryw o bwysig, wrth sôn am aelodau iau o staff. Gallai'r disgwyliad cynyddol bod gwaith unigol gweithwyr cymdeithasol unig yn arwain at oblygiadau negyddol oherwydd lleihad yn y cyfleoedd goruchwyliaeth gan gymheiriaid a grŵp yn y pen draw, fod yn 'beryglus'.

Manteisio i'r eithaf ar botensial dysgu o AYPau

- Cysondeb a statws

Roedd amrywiaeth eang o ansawdd ar draws yr AYPau fel y nodwyd gan y tîm ymchwil, a nodwyd hyn hefyd yn y grwpiau ffocws. Felly, mae cysondeb yn broblem. Roedd arbenigedd yn thema gyson drwy gydol trafodaeth y grŵp ffocws. Ystyriwyd fod y syniad nad yw aelodau'r panel fel arfer mor uchel a phrofiadol yn y broses fel gyda'r broses flaenorol (SCR) yn broblem o ran ansawdd, ond yn fwy pryderus o ran statws yr AYPau. Felly, i rai, mae AYPau yn cael eu hystyried â statws is o ran eu trylwyredd a'u defnydd o'u cymharu â SCR a DHR.

- Diffyg cyd-destun

Mewn lleiafrif o achosion roedd y darllenwyr yn cael trafferth i wneud synnwyr o'r cyd-destun sy'n gysylltiedig â'r AYPau oherwydd y wybodaeth gyfyngedig a ddarparwyd. Roedd ceisio cymhwyso dysgu heb gyd-destun yn heriol ac mae'n codi cwestiynau ynghylch pa mor ddefnyddiol y gallai'r rhain fod i ymarferwyr o wahanol ardaloedd sy'n ceisio dysgu oddi wrthynt.

Mae'r canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol bod AYPau yn cwmpasu uchafswm o 12 mis cyn y digwyddiad (gweler 6.22 yn Llywodraeth Cymru, 2016). Mewn rhai achosion, mae hyn yn creu darlun cyfyngedig iawn ai'r darlennydd. Dylid nodi mewn nifer bach o achosion bwriadwyd i'r AYP gwmpasu mwy na 12 mis⁴. Adroddwyd yn helaeth hefyd yn un o'r grwpiau ffocws nad yw aelodau'r panel yn cynnwys argymhellion mewn adroddiadau eisoes yn 'hysbys', arfer sy'n gysylltiedig â lledaenu cyfyngedig o ran yr adroddiadau, sydd yn aml wedi'i gyfyngu i ardaloedd lleol. Nodwyd gan gyfranogwyr y grwpiau ffocws fod yr AYPau yn rhy fewnol, o ran canolbwyntio ar yr effaith leol (iawn) yn hytrach na'r effaith ranbarthol neu genedlaethol.

Awgrymwyd gan rai o'r rhai hynny oedd yn bresennol yn un o'r grwpiau ffocws oedd

⁴ Mewn amgylchiadau eithriadol gellir darparu llinell amser o hyd at ddwy flynedd (gweler 6.22 o Lywodraeth Cymru, 2016).

wedi cadeirio AYPau mai'r arfer oedd 'osgoi golchi dillad budron yn ngŵydd pawb'. Mae hyn wedi'i ddeall ymhellach gan rai paneli/byrddau fel yr angen i gael gwared ar gyd-destun yn yr AYPau; dyma pam mae rhai ohonynt yn cynnwys ychydig o wybodaeth/dim gwybodaeth. Nid oedd pawb wnaeth fynychu'r grwpiau ffocws yn cytuno gyda'r pwyntiau hyn.

- Amserlenni a chynlluniau gweithredu

Roedd rhai o'r adolygiadau yn cynnwys amserlenni neu gronolegau ac ystyriwyd hyn yn ddefnyddiol iawn, er nad yw'n cael ei argymhell yn y Canllawiau (Llywodraeth Cymru, 2016). Nid oedd yr holl AYPau a dderbyniwyd yn cynnwys cynlluniau gweithredu, ac mae'n bwysig bod cynlluniau gweithredu yn cael eu hatodi a'u storio gyda'r adolygiadau. Gofynnwyd cwestiynau hefyd mewn grwpiau ffocws ynghylch pam, os oes ymrwymiad i ddysgu ehangach a mwy hirdymor y tu hwnt i'r cyd-destun lleol uniongyrchol, mae rhai byrddau yn uwchlwytho AYPau am y cyfnod statudol gofynnol yn unig. Yn y ddau grŵp ffocws trafodwyd cymhlethdod cael cronolegau amlasiantaethol. Yma, roedd y materion yn ymwneud ag amser staff, cynnwys a chyd-drefnu, yn ogystal â rhwystrau technolegol.

- 8 Diffyg cyfranogiad mewn rhai digwyddiadau lleolaen

Nodwyd hyn yn yr AYPau, yr arolygon cyfranogwyr, a'r grwpiau ffocws. Gallai'r pwysau a roddir ar staff fod yn effeithio ar bresenoldeb mewn digwyddiadau dysgu AYP oherwydd llwyth gwaith a salwch (AYPau 1, 2 a 3). Mae'r ffaith nad oedd unigolion allweddol yn cymryd rhan yn y digwyddiad dysgu yn amlwg yn tanseilio potensial y digwyddiad am ymgysylltiad ystyrlon. Yn wir, mae 6.38 canllawiau Llywodraeth Cymru (2016) yn nodi y disgwylir i ymarferwyr a rheolwyr fod yn bresennol os ydynt yn cael gwahoddiad. Mae'r canllawiau yn mynd ymlaen i nodi y dylai adolygwyr 'feddwl yn greadigol ynghylch sut y dylai ymarferwyr a rheolwyr perthnasol ymgysylltu yn yr adolygiad' (gweler 2.68 Llywodraeth Cymru, 2016), ac yn awgrymu y gall fod yn briodol cael mwy nag un digwyddiad mewn rhai achosion. Mewn rhai ardaloedd mae'n ymddangos yn arfer rheolaidd i gynnal digwyddiadau ar wahân ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr; nid yw'n glir pam y datblygodd yn y modd hwn, ac p'un a fyddai mwy o ddysgu ar y cyd yn cael ei gyflawni drwy ddwyn yr holl weithwyr proffesiynol ar lefelau gwahanol ynghyd.

Trafodaeth

Mae ein dadansoddiad o'r sampl hwn o AYPau yn darparu golwg 'oddi uchod' sydd wedi datgelu patrymau a themâu trawsbynciol na ellid eu canfod o ddarllen un adolygiad, er bod manteision yn ddiamheuaeth o archwilio adolygiadau unigol a

defnyddio mwy o 'olwg oddi isod'.

Agwedd unigryw ar yr ymchwil hwn oedd i gael tîm ymchwil o dair disgyblaeth gwahanol - troseddeg, y gyfraith a gwaith cymdeithasol (academaidd, cyfreithiol ac ymarferol - i godio a dadansoddi'r data. Mae gwahanol gefndiroedd wedi galluogi dod ag amrywiaeth o safbwyntiau i'r dadansoddiad a helpu'r tîm i osgoi 'meddylfryd seilo' a rhoi mwy o fraint i un ddisgyblaeth arbennig dros un arall. Roedd y dull hwn hefyd yn hwyluso canfyddiadau ategol drwy driongli. Gallai ymchwil tebyg yn y dyfodol sy'n defnyddio dull tebyg elwa ar gael codiwr ychwanegol o ddisgyblaeth meddygol (e.e. gweithiwr proffesiynol meddygol neu iechyd meddwl).

Fe wnaeth y tîm ymchwil nodi themâu tebyg yn annibynnol ar bob un o'r dogfennau adolygu hyn. Roedd y themâu hyn yn canu cloch gyda'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws. Wrth gymharu'r themâu o'r AYPau gyda'r rhai hynny o astudiaeth flaenorol a gynhaliwyd i adolygiadau oedd (Robinson et al., 2018), daeth rhai o'r un themâu i'r amlwg ar draws y ddau sampl, ni waeth a oedd yr adolygiad yn AYP, DHR, APR neu MHHR. Roedd y rhain yn cynnwys hierarchaeth gwybodaeth ac asesu rhannol, gan ddangos nad yw'r materion hyn yn gyfyngedig i weithio gydag oedolion neu gyda phlant, ond eu bod yn dod i'r amlwg fel mater o drefn yn y ddau faes ymarfer proffesiynol. Yn wir mae'r ffaith fod y rhain yn cael eu trefnu fel endidau ar wahân yn her i asesiadau cyfannol sy'n ystyried y teulu cyfan yn hytrach nag unigolion ar wahân. Mae'r 'planedau' proffesiynol gwahanol hyn yn llesteirio diogelu effeithiol ar draws timau, gosodiadau, a disgyblaethau (Hester, 2011). Mae rhannu gwybodaeth problemus yn nodwedd amlwg arall o'r ddwy astudiaeth, yn ogystal â mewn nifer o astudiaethau eraill (Neville a Sanders-McDonagh, 2014; AGIC, 2016; Sharps-Jeff a Kelly, 2016; Sidebotham et al., 2016).

Fe wnaeth y ddwy astudiaeth hefyd nodi bod rhai themâu yn unigryw mewn gwirionedd i ymarfer gydag oedolion neu blant. Er enghraifft, datgelwyd fod y posibilrwydd o 'dwylo' yn ystyriaeth bwysig wrth weithio gydag oedolion sy'n profi cam-drin domestig, iechyd meddwl gwael neu'n camdefnyddio sylweddau. Mae hyn yn cyfeirio at bwysigrwydd gweithwyr proffesiynol sy'n fedrus ac yn hyderus i herio'r safbwynt a fynegwyd gan oedolion yn briodol. Ar y llaw arall, canfu'r astudiaeth bresennol fod y broblem yn fwy i ymwneud â chyrraedd 'llais' neu brofiad y plentyn yn y lle cyntaf. Rhaid i'r ffocws allweddol ar safbwyntiau plant a'u profiadau bywyd gael ei ailosod fel ffocws canolog i AYPau.

Er bod yr AYP wedi'i adolygu yn flaenorol, roedd hyn yn bennaf i ystyried gweithredu, dwy flynedd ar ôl ei sefydlu, gan ganolbwyntio ar lefel ymwybyddiaeth o AYP, gwneud penderfyniadau, amser a materion yn ymwneud ag adnoddau (Llywodraeth Cymru, 2015). Mae'r astudiaeth bresennol hon yn adolygu'r themâu o ddarllen ar draws 20 AYP tua pum i chwe blynedd ar ôl eu cychwyn. Felly, roedd gennym ddiben gwahanol iawn ac felly rydym yn debygol o ddod i gasgliadau gwahanol.

Roedd rhai enghreifftiau ardderchog o arfer da, fel rhannu gwybodaeth yn effeithiol, a

sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn yn ymarferol yn ogystal ag yn ystod yr AYP (AYPau 4, 5).

Er mai nod y newid i'r model AYP oedd 'i ddefnyddio dull mwy syml, hyblyg a chymesur i adolygu a dysgu o'r hyn sydd yn anochel yn achosion cymhleth' (canllawiau LIC; 2012), mae'n bosibl bod dysgu yn cael ei beryglu braidd gan y dull hwn sydd wedi'i gwtogi. Roedd ein canfyddiadau o ddarllen yr Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn debyg o ran bod yr AYO yn yr un modd yn 'aml yn amddifad o fanylion cefndir, sydd yn anodd i'r rhai hynny sydd y tu allan i'r sefyllfa ei ddilyn, er y gallant gyfleu dadansoddiad defnyddiol a phwyntiau dysgu ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â nhw' (Robinson et al., 2018).

Gallai diffyg cynnwys argymhellion 'hysbys' a manylion ehangach fod yn rhannol o ganlyniad i ddiben datganedig yr AYP sy'n canolbwyntio ar gyfrifoldeb a dysgu ar lefel leol. 'Diben cyffredinol y system adolygu yw hybu diwylliant cadarnhaol o ran dysgu ac adolygu amddiffyn plant aml-asiantaeth mewn ardaloedd lleol, y mae Byrddau ac asiantaethau partner yn gyfrifol am ei wneud' (gweler 1.3 Llywodraeth Cymru, 2016). Mae'r dull hwn yn ymddangos yn groes i ymdrechion i hyrwyddo dysgu ehangach, cenedlaethol o'r adolygiadau hyn.

Mae angen mwy o ystyriaeth o dadau mewn asesiadau, ac os bydd eu llais neu safbwyntiau yn absennol, mae angen datgan pam mai dyma'r achos. Fe wnaeth trafodaethau mewn grwpiau ffocws amlygu bod Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn gweithio gyda'r Sefydliad Tadolaeth i adeiladu newidiadau ymarferol sydd wedi'u hanelu at wella ymgysylltu â thadau. Roedd hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod tadau yn cael copïau o ohebiaeth ac yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd fel mater o drefn. Yn anffodus, ni theimlwyd fod yr effaith wedi cael ei chynnal mewn ymarfer cyfoes. Ychydig o wasanaethau arbenigol sy'n bodoli i weithio gyda thadau. Nododd cyfranogwyr y grwpiau ffocws bod Caring Dads NSPCC yn arfer bod yn wasanaeth cynhyrchiol ond nad yw'n rhedeg bellach.

Fe wnaeth un adborth gan grŵp ffocws nodi manteision 'dod ynghyd ag eraill i gynnal adolygiadau, trafod proses ac archwilio themâu cyffredin' a nodi y byddent 'yn hoffi cael y cyfle i wneud hyn eto, mae'n ddefnyddiol i gael undod, yn ogystal â chefnogaeth gan y gall fod yn dasg unig.' Efallai y byddai hwyluso cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer adolygwyr yn ddefnyddiol.

Mae angen i ymarferwyr greu cronolegau a genogramau, eu diweddarau'n rheolaidd a sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb sy'n gweithio ar draws sefydliadau mewn ymarfer (i gynnwys plant sydd wedi'u mabwysiadu neu eu maethu mewn awdurdod lleol arall). Mae amserlenni a genogramau hefyd yn cael eu nodi yn y ddogfennaeth Canllawiau ar gyfer AYPau - 'Dylid paratoi genogram llawn a chywir gan y panel adolygu. Dylid ei ddefnyddio yn ystod trafodaethau panel, a bod ar gael i gyfeirio ato ar bob cam o'r broses adolygu, er *'ni ddylid ei gynnwys yn yr adroddiad a gyhoeddir'* (gweler

Llywodraeth Cymru, 2012:19, 6.24 Llywodraeth Cymru, 2016). Efallai y bydd angen i fanylion amgylchiadau plentyn a genogramau fod ar gael i ymarferwyr (ac o bosibl ymchwilwyr) ar ôl y digwyddiad dysgu os am gyflawni dysgu gwirioneddol.

Canfuwyd bod ansawdd a chwmpas yr AYPau yn wahanol iawn. Roedd rhai adroddiadau o ansawdd llawer gwell o ran lefel eu manylion a dadansoddi nag eraill, a gallai awduron adolygiadau elwa ar fwy o hyfforddiant, safon gyson a meincnodi. Amlygwyd amrywioldeb anrhagweladwy o fewn adolygiadau hefyd fel rhwystr i ddysgu. Un maes mawr a amlygwyd gan ymatebwyr i'r arolwg ac yn y grwpiau ffocws oedd materion llwyth gwaith a diffyg staff cymwysedig, sydd ar gael gyda'r gallu i gynnal yr adolygiadau. Mae hyn yn ategu'r materion llwyth gwaith a amlinellwyd yn her 1 oedd yn nodi llwyth gwaith fel anhawster mawr ar gyfer pob proffesiwn mewn cyfnod o doriadau a llymder. Ymddengys fod lefel uchel o gefnogaeth ar gyfer mwy o hyfforddiant a lleihau llwyth gwaith ar gyfer y rhai sy'n ymwneud ag AYPau. Mae cyfiawnhad amlwg ar gyfer hyfforddiant amlddisgyblaethol ar GDPR ar gyfer yr holl fyrddau Diogelu.

Nodwyd fod gan awdurdod lleol Gwynedd declyn asesu risg oedd wedi'i ymgorffori i brosesau goruchwylio a'i fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr; efallai y bydd RSGB am ystyried nodi a mapio arferion a theclynnau goruchwylio ar draws asiantaethau yn eu hardaloedd. Hefyd, dylid ystyried sesiynau goruchwylio aml-asiantaethol.

Awgrymodd ein gwaith ymchwil blaenorol (Robinson et al. 2018) nifer o ffyrdd y gallai'r broses adolygu wella tebygolrwydd dysgu dyfnach, ehangach. Yn yr astudiaeth flaenorol, mynegodd llawer o gyfranogwyr y grŵp ffocws ddyhead am ddull gweithredu mwy canolog, rhagweithiol, strwythuredig i hwyluso dysgu o adolygiadau, sydd yn benodol i Gymru. Ymddengys mai dyma'r achos ar gyfer AYPau hefyd, gan fod nifer o faterion lledaenu wedi'u nodi. Nid oes unrhyw ystorfa Gymraeg gyflawn ar gyfer adolygiadau o'r fath, er bod un yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

Argymhellion⁵

Mae'r dystiolaeth sydd yn yr adroddiad hwn yn awgrymu nifer o argymhellion, sydd wedi'u rhestru isod.

I wella canlyniadau ac effaith cynnal adolygiadau yng Nghymru, rydym yn argymhell bod:

1. AYPau yn cael eu cadw mewn ystorfa ganolog (e.e. yr un sy'n cael ei sefydlu gan Brifysgol Caerdydd ar hyn o bryd) i hyrwyddo hygyrchedd adolygiadau a gwblhawyd i hwyluso dysgu ledled Cymru. Dylai pob adolygiad gael ei fynegeo yn ôl y materion sy'n codi o fewn iddo, fel y gall eraill sy'n gweithio yn

⁵ <http://upsi.org.uk/projects-2/2019/1/14/qtyhf5xsczuiuwsbnb4z9tam0quk>

yr un maes elwa ar y wybodaeth hygyrch hon.

2. Er mwyn i gynulleidfa ledled Cymru fanteisio i'r eithaf ar y dysgu, mae angen cynnwys mwy o fanylion mewn AYPau (beth ddigwyddodd a pha sefydliadau sy'n gweithio gyda'r teulu, o leiaf).
3. Cynhyrchu cyhoeddiad o'r prif themâu sy'n dod i'r amlwg a'i ledaenu'n eang er mwyn gwella dysgu ledled Cymru. Dylai hyn ddigwydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn a mabwysiadu'r dull methodolegol cadarn a ddefnyddiwyd yma (h.y. codio mathau lluosog o adolygiadau yn thematig gan dîm rhyngddisgyblaethol).
4. Ystyrir y defnydd o ddulliau creadigol i ledaenu negeseuon o'r adolygiadau, er enghraifft, y defnydd o 'gweminarau'. Gallai'r rhain fod yn gyfleoedd gwych ar gyfer addysgu a dysgu a gallent fod yn sail i oruchwyliaeth tîm neu rhyng-ddisgyblaethol.
5. Darperir hyfforddiant aml-ddisgyblaethol ar GDPR i holl fyrddau RSGB (ac NISB).
6. Uwchlwytho APYau ar wefannau Bwrdd Diogelu am fwy na 12 wythnos.
7. Cyhoeddi AYPau gyda'r cynllun gweithredu ynghlwm bob amser
8. Darparu mwy o eglurder o ran gwahaniaeth a diben yr adolygiadau cryno ac estynedig.
9. Datblygu hyfforddiant ychwanegol i wella cysondeb ansawdd adolygiadau ar gyfer pawb sydd yn gyfrifol am gynnal adolygiadau yng Nghymru, a sicrhau bod y rhain yn cyflawni'r hyfforddiant. Mae angen i hyn gynnwys ffocws ar ymglymiad y plentyn, ymgysylltu gyda thadau, amserlenni/cronolegau, genogramau, cydweithredu, cyfrifoldebau, a rhannu gwybodaeth gan wahanol asiantaethau sy'n cyfrannu at adolygiadau. Trefnu cyfarfodydd rheolaidd rhwng cadeiryddion AYP ac adolygwyr.
10. Adolygu'r hyfforddiant ar gyfer AYPau (2016) gan ystyried ail-leoli a sicrhau bod y plentyn yn ganolog a sut y gelir cyflwyno llais y plentyn pan na ellir siarad gyda'r plentyn. Mae angen i'r adolygwyr nodi p'un a siaradwyd â phlant neu beidio o leiaf, ac os ddim, nodi rhesymau dros hyn.
11. Dylai fod ffyrdd clir o ysgafnhau baich gwaith, er mwyn galluogi amser i'r adolygwyr gynnal adolygiadau o ansawdd uchel ac i bobl fynychu digwyddiadau dysgu.
12. Efallai y bydd RSGB yn dymuno ystyried nodi a mapio arferion a theclynnau goruchwyllo ar draws asiantaethau yn eu hardaloedd.
13. Hefyd, dylid ystyried sesiynau goruchwyllo aml-asiantaethol.

Rydym yn rhagweld y bydd gwella'r broses a'r allbynnau yn y ffyrdd hyn yn cynyddu statws yr AYP, gan arwain at *ganlyniadau* gwell (h.y. bydd ymarfer ar draws asiantaethau yn gwella gan fod gan ymarferwyr fynediad gwell at ddysgu perthnasol o

adolygiadau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru, gyda'r nod yn y pen draw o leihau nifer y digwyddiadau sy'n galw am adolygiadau dros y tymor hirach).

Fel nodyn olaf, hoffem gydnabod ein bod yn teimlo'n freintiedig o fod wedi cael mynediad at yr AYPau hyn, mae pob un ohonynt wedi bod yn ddadlennol ar gyfer ein gwaith yn y dyfodol. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'r gweithwyr proffesiynol prysur sy'n cynnal yr adolygiadau hyn ac i'r rhai a roddodd o'u hamser i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws, arolygon ac adborth.

Llyfryddiaeth

Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC) 2018. Gwasanaethau cymdeithasol plant yng Nghymru 'yn agos at argyfwng'. Ar gael yn: [{1}\(Cyrchwyd 11/03/2019\)](#)

Carpenter, J., Webb, C., Bostock, L. a Coomber, C., 2012. *Goruchwyliaeth effeithiol mewn gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol*. Bryste: Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth.

Carpenter, J., Webb, C.M. a Bostock, L., 2013. Y sylfaen dystiolaeth rhyfeddol o wan ar gyfer goruchwyliaeth: Canfyddiadau o adolygiad systematig o ymchwil mewn ymarfer lles plant (2000-2012). [{1>Adolygiadau o Wasanaethau Plant ac Ieuencid, 35<1}\(11\)](#), pp.1843-1853.

Forrester, D., Maxwell, N., Slater, T. a Doughty, J. 2017. [{1>Adolygiadau yn seiliedig ar dystiolaeth o'r peryglon i bobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yn y cartref<1}](#). Ar gael yn: <http://safeguardingboard.wales/wp-content/uploads/sites/8/2017/11/2017-11-14-Home-Education-Report-Final-13.10.17.pdf>

(Cyrchwyd 10.01.19)

Yr Arglwydd Laming 2003. *Ymchwiliad Victoria Climbe: adroddiad ymchwiliad gan yr Arglwydd Laming*. Ar gael yn: [{1}\(Cyrchwyd 10.01.19\)](#)

McConville, M., et al. 1994. *Standing Accused: {1>The Organization and Practices of Criminal Defence Lawyers in Britain<1}*. Rhydychen: Gwasg Clarendon.

Neville a Sanders-McDonagh, 2014 Atal trais domestig a cham-drin: themâu cyffredin a'r gwersi a ddysgwyd o DHRau Gorllewin Canolbarth Lloegr{ <http://www.westmidlandspcc.gov.uk/media/346463/13-spcb-11-sep-14-domestic-homicide-reviews-research-appendix-1.pdf> .

Patrick, R. 2017. *Er budd pwy? {1>Realiti dyddiol diwygio lles.<1}* Bryste: Policy Press.

Preston-Shoot, M. 2018. Beth Sydd o'i Le mewn Gwirionedd Gydag Adolygiadau Achosion Difrifol? *Adolygiad Cam-drin Plant*, 27, t.11-23.

Robinson, Rees a Dehaghani, (2018) *Findings from a thematic analysis of reviews into adult deaths in Wales: Domestic Homicide Reviews, Adult Practice Reviews and Mental Health Homicide Reviews*. Adroddiad Prosiect. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd).

SharpJefferies, N. a Kelly, L. (2016). Dadansoddiad Achos Adolygiad Marwolaethau Domestig (DHR).

http://www.standingtogether.org.uk/sites/default/files/docs/STADV_DHR_Report_Final.pdf.

Webb, C.M. a Carpenter, J., 2011. Beth y gellir ei wneud i hyrwyddo cadw gweithwyr cymdeithasol? Adolygiad systematig o ymyriadau. {1>British Journal of Social Work, 42(7),<1} pp.1235-1255.

Llywodraeth Cymru. 2016. *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl. Cyfrol 2 - Adolygiadau Ymarfer Plant*. Ar gael yn:<https://gov.wales/docs/dhss/publications/161111cpr-guidanceen.pdf> ((Cyrchwyd 11.03.19)

ATODIAD A

Tabl disgrifiadol i roi cipolwg o bob adolygiad a throsolwg o'r sampl.

	Rhanbarth		Cyfnod Cryno neu estynedig	Manylion y plentyn	Digwyddiad/au	Amgylchiadau ehangach yr achos
AYP1	Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin	19/04/2018	01/07/2014- 31/07/2016 Estynedig	anhysbys Byw gyda 3 o frodyr a chwiorydd a mam	Tân yn y tŷ Esgeulustod	Hysbys fod y fam yn camddefnyddio sylweddau. Perthynas bob yn ail â pheidio gyda tadau (2) y plant
AYP2	Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin	07/08/2018	Cyfnod aneglur (babi wedi marw yng ngwanwyn 2017) Cryno	Gwryw, 8 mis oed	Mam yn deffro a chael y babi yn las/gwyn, yn stiff ac anymatebol.	Yn byw gyda mam, Tad ddim yn byw gyda'r fam. Pedwar brawd a chwaer arall nad ydynt yn byw gyda'r fam. Y babi a chwaer hŷn yn rhannu gwely gyda'r fam. Roedd y fam wedi bod yn yfed alcohol cyn ac ar noson marwolaeth y babi. Galwyd am ambiwlans. Cyhoeddi bod y babi wedi marw pan gyrhaeddwyd yr ysbyty.

AYP3	Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin	Dim dyddiad wedi'i gofnodi	01/06/2013- 17/07/2014 Cryno	Benyw oedran yn aneglur	Bu farw plentyn ag anghenion arbennig o peritonitis. (nodwyd diwrnod y farwolaeth rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn 2014).	Yn byw gyda'i mam. Ymddengys nad yw'r tad yn byw gyda'r plentyn. Nain a thaid mamol yn goruchwyllo gofal y fam ar gyfer y pedwar ieuengaf (gan gynnwys y plentyn dan sylw). Mam ag anawsterau dysgu, wedi cael trafferth gyda rhianta. Saith o blant o bedwar perthynas. Y plentyn hynaf yn byw gyda'r teulu tadol. Mae dau o'r plant hynaf yn byw gyda'r nain a taid mamol.
AYP4	Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin	Dim dyddiad wedi'i gofnodi	Cyfnod aneglur Estynedig	Benyw, 12 mlwydd oed (Dechrau), 15 mlwydd oed (yn ystod)	Tu hwnt i reolaeth rhieni. Tystiolaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol - un troseddwr yn y carchar ond mae'r plentyn mewn cariad â'r troseddwr.	Yn byw gyda nain mamol, mam a modryb yn y cartref teuluol. Yn aml yn derbyn gofal gan berthnasau. Tad biolegol ond wedi cwrdd â hi unwaith. Cyfeirio at tad brawd/chwaer fel tad.
AYP5	Caerdydd a'r Fro	16/01/2018	01/07/2012- 01/07/2014, Estynedig	Benyw, 6 mlwydd 10 mis (FC)	Yn feithrinfa ac yn yr ysgol - baeddu, ymddygiad rhywiol, ymosodol tuag at blant eraill.	Yn byw gyda'i mam. Gweithiodd mam fel esgort o'r cartref. Mam - iselder, hwyliau isel, diffygion rhianta.

						<p>Mam yn beio iechyd meddwl wedi'i etifeddu o ochr y tad. Y fam yn methu diwallu anghenion iechyd y plentyn. Arestio'r fam a'i phartner yn ddiweddarach ond dim camau pellach gan Wasanaeth Erlyn y Goron.</p> <p>Ni ellid diystyru cam-drin corfforol a rhywiol. Roedd adroddiadau gan y plentyn yn awgrymu ymosodiadau rhywiol.</p>
AYP6	Gogledd Cymru	Cymeradwyd lonawr 2017	01/07/2012- 01/07/2014, Estynedig	Gwryw, 11 mlwydd oed	<p>Marwolaeth drwy ymosodiad asthma.</p> <p>Oedi cyn ceisio cymorth meddygol ac ni roddwyd y feddyginiaeth briodol iddo yn y dyddiau cyn ei farwolaeth. Methiant y rhieni i ddiwallu anghenion iechyd.</p>	<p>Plentyn hynaf o 5. Mam a dad wedi gwahanu. Mam yn cyd-fyw gyda'i phartner (tad y 5ed plentyn). Plentyn yn dyst i Gam-drin Domestig; rhianta anghyson/esgeulus; diffyg meithrin a gofal priodol; rhieni'n gwrthod cymorth/cefnogaeth; hanes o fethu â sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu mewn apwyntiadau iechyd. Ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddau achlysur blaenrol. Roedd y fam yn flêr ac yn aroglu o alcohol (yn yr ysbyty).</p>

AYP7	Gogledd Cymru	09/03/2016	Cyfnod aneglur, Estynedig	Oedran a rhyw anhysbys	2 blentyn wedi cael methadon yn fwriadol	Camddefnydd y rhieni o sylweddau yn fwy anhrefnus ac wedi tynnu'n ôl o ymglymiad asiantaethau yn ystod yr ail feichiogrwydd. Mam yn camddefnyddio sylweddau. Y tad hefyd yn camddefnyddio sylweddau a deallusrwydd yr heddlu yn awgrymu ei fod yn delio sylweddau a reolir yn yr ardal. 2il blentyn - symptomau diddyfnu oddi ar gyffuriau. Pryderon o ran oedi datblygiadol.
AYP8	Cwm Taf		Cyfnod aneglur, Cryno	17 mis, anhysbys	Plentyn wedi disgyn i lawr grisiau - anaf difrifol nad oedd yn ddamweiniol.	Cyn marwolaeth y gwasanaethau iechyd arferol oedd wedi ymwneud â'r teulu yn unig
AYP9		07/07/2016	Tri mis ar ddeg cyn Rhag 2011, Cryno	Gwryw, 8 mlwydd oed	Dim tystiolaeth o unrhyw fewnbwn meddygol ynghylch dirywiad. Esgeulustod - diffyg fitamin C.	Yn byw gyda mam, dad a brawd/chwaer hŷn. Plentyn yn cael ei addysgu gartref.

AYP10		25/01/2018	Cyfnod aneglur, Estynedig	Gwryw, mlwydd bron yn 18	17 oed, hongian (hunanladdiad)	<p>Marwolaeth drwy (hunanladdiad)</p> <p>Byw mewn gofal maeth o dan yr Awdurdod Lleol (ALI). O dan ofal yr ALI o 2 flwydd oed oherwydd cam-drin ac esgeulustod corfforol ac emosiynol difrifol. Plentyn - Anhwylder Ymlyniad ac ymddygiad ymosodol. Cafodd y plentyn ei fabwysiadu gan Mr a Mrs A, ond erbyn iddo droi'n 10, nid oedden nhw'n gallu ymdopi gydag ef (roedd pryderon blaenorol am addasrwydd Mr a Mrs A gan Mr a Mrs A a gweithwyr proffesiynol). Dioddef pryder parthed cynllunio llwybr i annibyniaeth.</p>
AYP11	De Ddwyrain Cymru	27/06/2018	1992 (geni) hyd at 2007	Gwryw, oedolyn adeg adolygiad	ar yr J wed cael ei gam-drin yn rhywiol gan ei dad. J hefyd wedi cyflawni cam-driniaeth.	<p>Plentyn J yw'r ieuengaf gyda 3 chwaer oedd yn 12, 7 a 6 ar adeg ei eni. Rhieni wedi gwahanu cyn ei eni ac fe wnaeth ei dad symud gyda'i bartner newydd a'i mab 10 mlwydd oed (ar y gofrestr Amddiffyn Plant)</p> <p>Teulu yn hysbys i'r gwasanaethau statudol: cam-drin emosiynol a gofid, alcoholiaeth y fam, ymddygiad J yn yr ysgol, gwrthdaro rhwng rhieni.</p> <p>Hanesyddol - plentyn J yn 15 mlwydd oed pan wnaeth gyflawni ymosodiad</p>

AYP12	De Ddwyrain Cymru	20/06/2016	04/03/2014 - 03/03/2015, Cryno	Benyw, oed	16	Canfu K yn hongian mewn ystafell fach yn ei hystafell wely (hongian angheuol). Roedd wedi ceisio lladd ei hun o'r blaen.	Yn byw gyda'i mam. Wedi treulio 7 mis mewn gofal maeth yn 2009. Roedd K yn achos agored gyda CAMHS. Ar adeg marwolaeth, nid oedd yn ymgysylltu'n uniongyrchol. Achos blaenorol o hongian nad oedd yn angheuol - wedi cwestiynu'r plentyn ynghylch hunan-niweidio a chysylltu gyda'r fam. Gwadu hunan-niwed i
AYP13	Bae'r Gorllewin		14/01/2013 - 14/01/2014 Cyfnod Cryno	Benyw, 4 mis		Hanes o daflu fyny a bod yn llipa, anafiadau difrifol i'r gwddf, rhannau thorasig a meingefnol llinyn y cefn, asennau wedi'u torri, toriadau i'r ddau grimog a nifer o gleisiau a chrafiadau dros ei chorff. Y tad oedd y	Rhieni a'r babi'n byw gyda'r teulu estynedig
AYP14	Bae'r Gorllewin		Cyfnod aneglur, Cryno	Gwryw, mis oed	17	3 wythnos o daflu fyny parhaus. Nifer o anafiadau, y credir nad oeddent yn ddamweiniol.	Fe wnaeth yr heddlu gychwyn achos troseddol ond nododd y fam ei bod yn byw gyda'i mam, y fam wedi gwahanu oddi wrth y tad (Cam-drin domestig), gyda'r partner newydd (Cam-drin domestig), ddim yn glir bod y fam a'r partner yn byw gyda'i gilydd

					plentyn wedi disgyn ac ni wnaeth hi (y fam) geisio cymorth am ei bod wedi mynd i banig	
AYP15	Bae'r Gorllewin	08/12/2014	21/05/2012 - 21/05/2013, Cryno	O bosibl 6 mis oed, rhyw anhysbys	Derbyniad brys i'r ysbyty. Cleisio i ddwy ochr y wyneb a gwaedu yn y pen rhwng yr ymennydd a'r penglog	
AYP16	Bae'r Gorllewin	18/12/2015	08/2012-08/2013- Cryno	Gwryw, 11 mlwydd oed	Anafiadau niferus, sy'n awgrymu bod cam-drin corfforol: marc taro i ochr chwith yr wyneb a chleisiau ar rannau o'r corff Roedd y plentyn wedi dioddef achosion blaenorol o gamdriniaeth corfforol ac emosiynol (hysbys drwy asesiad,	Yn byw gyda'i fam a llys dad a thri brawd/chwaer iau. Tynnwyd sylw at yr anafiadau drwy aelod o'r cyhoedd.

					cynhaliwyd yn ystod yr adolygiad)	
AYP17	Bae'r Gorllewin	08/12/2014	Hydref 2010 i Hydref 2012, Estynedig	anhysbys/aneglur anhysbys Estynedig	Esgeulustod. Plentyn dan sylw gydag anghenion cymhleth sylweddol. Nid yw anghenion y plentyn yn cael sylw gan y rhieni. Plentyn a brodyr/chwiorydd -	Plentyn hynaf wedi'i gam-drin gan y llystad.
AYP18	Caerdydd a'r Fro	Awst 2018	18/04/2015-25/02/2016, Estynedig	3 oed, Rhyw anhysbys	Esgeulustod - plentyn yn hongian o degan meddal, brawd/chwaer yn dod o hyd iddo. Fe wnaeth y fam adael yr olygfa'n ddiweddarach gyda brawd/chwaer hŷn.	Byw gyda mam a brawd/chwaer hŷn. Nid oedd gan y tad unrhyw gyswllt dros nos Ychydig o fwyd, pryfed wedi marw yn y gegin - cegin dros dro yn yr ystafell wely - nid oherwydd y fam ond arwydd o esgeulustod, goruchwyliaeth wael. Pryderon iechyd mam, tad yn camddefnyddio sylweddau

AYP 19	Caerdydd a'r Fro	11/10/2018	01/01/2014 - 10/01/2016, Estynedig	4/5 mlwydd oed (dechrau), 6/7 mlwydd oed (diwedd), Rhyw anhysbys/aneglur	Esgeulustod o ran iechyd ac anghenion datblygiadol ac addysg gan y fam. Cariad y fam wedi cam-drin y plentyn yn rhywiol.	Roedd gan y fam broblemau camddefnyddio sylweddau hirsefydlog yn ystod y beichiogrwydd a 6 mlynedd cyntaf bywyd y plentyn. Plentyn: amlygiad i gamddefnydd y fam o sylweddau, gweithgarwch troseddol a cham-drin domestig. Ysgol: presenoldeb, prydlondeb, cyflwyniad ac iechyd deintyddol gwael. Cynnydd datblygiadol ac addysgol gwael. Dannedd wedi pydru; 10 wedi cael eu tynnu. Anhawster ysgafn/canolig wrth ddeall iaith lafar.
AYP20		24/01/2019	08/04/2016-08/04/2017, Cryno	15 oed, rhyw anhysbys/aneglur	Canfuwyd y corff ar ei ben ei hun yn yr awyr agored. Marwolaeth posibl dros nos - mynychu parti awyr agored - cannabis ac MDMA.	byw gyda'r teulu, nifer fawr o frodyr a chwiorydd. Plentyn ifanc gydag anghenion cymhleth. Plentyn ifanc yn mynd ar goll yn aml. Camddefnyddio alcohol a sylweddau.

ATODIAD B

	Teitl/crynodeb byr	Thema 1 - Hierarchaeth Gwybodaeth	Thema 2 - Rhannu / cofnodi gwybodaeth	Thema 3 – Asesiad rhannol	
AYP 1	Tân yn y tŷ Esgeulustod	Oes	Oes	Oes	Oes
AYP2	Mam yn deffro a chael y babi yn las/gwyn, yn stiff ac anymatebol.		Oes	Oes	Oes
AYP3	Bu farw plentyn ag anghenion arbennig o peritonitis. (nodwyd diwrnod y farwolaeth rhwng y Nadolig a'r Fflwyddyn Newydd yn 2014). Ni ellid dod i'r casgliad fod y plentyn wedi marw oherwydd esgeulustod.	Oes	Oes	Oes	Oes
AYP4	Tu hwnt i reolaeth rhieni. Tystiolaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol - un troseddwr yn y carchar ond mae'r plentyn mewn cariad â'r troseddwr.	Oes	Oes	Oes	
AYP5	Yn feithrinfa ac yn yr ysgol - baeddu, ymddygiad rhywiol, ymosodol tuag at blant eraill.	Oes		Oes	
AYP6	Marwolaeth drwy ymosodiad asthma. Oedi cyn ceisio cymorth meddygol ac ni roddwyd y feddyginiaeth briodol iddo yn y dyddiau cyn ei farwolaeth. Methiant y rhieni i ddiwallu anghenion iechyd.	Oes	Oes	Oes	Oes
AYP7	Rhodddwyd methadon i 2 blentyn yn fwriadol.	Oes	Oes	Oes	

AYP8	Plentyn wedi disgyn i lawr grisiau - anaf difrifol nad oedd yn ddamweiniol.			Oes	
AYP9	Anemia dybryd, annormaleddau deintyddol, gwaedlif y meinwe meddal yng ngwaelod y coesau. Dim tystiolaeth o unrhyw fewnbwn meddygol ynghylch dirywiad. Esgeulustod - diffyg fitamin C.	Oes	Oes	Oes	Oes
AYP10	Marwolaeth drwy hongian (hunanladdiad)	Oes		Oes	Oes
AYP11	J wed cael ei gam-drin yn rhywiol gan ei dad. J hefyd wedi cyflawni cam-driniaeth.	Oes	Oes	Oes	Oes
AYP12	Canfu K yn hongian mewn ystafell fach yn ei hystafell wely (hongian angheuol). Roedd wedi ceisio lladd ei hun o'r blaen.	Oes		Oes	
AYP13	Hanes o daflu i fyny a bod yn llipa, anafiadau difrifol i'r gwddf, rhannau thorasig a meingefnol llinyn y cefn, asennau wedi'u torri, toriadau i'r ddau grimog a nifer o gleisiau a chrafiadau dros ei chorff. Y tad oedd y cyflawnwr.				
AYP14	3 wythnos o daflu i fyny parhaus. Nifer o anafiadau, y credir nad oeddent yn ddamweiniol. Fe wnaeth yr heddlu gychwyn achos troseddol ond nododd y fam ei bod wedi disgyn ac na wnaeth hi (y fam) geisio cymorth am ei bod wedi mynd i banig.	Oes	Oes	Oes	
AYP15	Derbyniad brys i'r ysbyty. Cleisio i ddwy ochr y wyneb a gwaedu yn y pen rhwng yr ymennydd a'r penglog	Oes	Oes	Oes	

AYP16	Anafiadau niferus, sy'n awgrymu bod cam-drin corfforol: marc taro i ochr chwith yr wyneb a chleisiau ar rannau o'r corff Roedd y plentyn wedi dioddef achosion blaenorol o gamdriniaeth corfforol ac emosiynol (hysbys drwy asesiad, cynhaliwyd yn ystod yr adolygiad)	Oes	Oes	Oes	
AYP17	Esgeulustod. Plentyn dan sylw gydag anghenion cymhleth sylweddol. Nid yw anghenion y plentyn yn cael sylw gan y rhieni. Plentyn a brodyr/chwiorydd - esgeulustod.	Oes	Oes	Oes	Oes
AYP18	Esgeulustod - plentyn yn hongian o degan meddal, brawd/chwaer yn dod o hyd iddo. Fe wnaeth y fam adael yr olygfa'n ddiweddarach gyda brawd/chwaer hŷn.	Oes		Oes	Oes
AYP19	Esgeulustod o ran iechyd ac anghenion datblygiadol ac addysg gan y fam. Cariad y fam wedi cam-drin y plentyn yn rhywiol.		Oes	Oes	Oes
AYP20	Canfuwyd y corff ar ei ben ei hun yn yr awyr agored. Marwolaeth posibl dros nos - mynychu parti awyr agored - cannabis ac MDMA.		Oes	Oes	Oes